OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 429 (Cy. 138)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Tachwedd 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 10(1)(a), (2)(b), (3)(a) a (b) ac (c), a 15(1) o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013(**1**).

Yn unol ag adran 26(4) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

PROSPECTIVE

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016 a deuant i rym ar 28 Tachwedd 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cludfwyd" ("*takeaway food*") yw bwyd sydd wedi ei baratoi yn unol ag archeb benodol defnyddwyr ar gyfer ei ddanfon neu ei gasglu i'w fwyta oddi ar y fangre;

ystyr "deunyddiau cyhoeddusrwydd" ("*publicity materials*") yw unrhyw ddeunydd printiedig sy'n hyrwyddo'r cludfwyd a ddarperir gan sefydliad y gweithredwr ac sy'n cynnwys prisiau'r bwyd a ddarperir ynghyd â disgrifiad o sut y caiff defnyddiwr, sy'n unigolyn y cyflenwir bwyd iddo ac eithrio yng nghwrs busnes a gynhelir ganddo, archebu ac eithrio archebu'n bersonol;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013;

ystyr "sefydliad" ("*establishment*") yw sefydliad busnes bwyd; ac

ystyr "sgôr" ("*rating*") yw sgôr hylendid bwyd a roddir o dan y Ddeddf.

(**1**) 2013 dccc 2.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Sefydliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i sefydliadau sy'n cyflenwi cludfwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Y gofyniad i hyrwyddo sgôr hylendid bwyd

**3.**—(1) Rhaid i weithredwr sefydliad sicrhau bod ei ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn arddangos y datganiad a ganlyn—

"Ewch i food.gov.uk/ratings i ganfod sgôr hylendid bwyd ein busnes neu gofynnwch inni beth yw ein sgôr hylendid bwyd wrth archebu. / Go to food.gov.uk/ratings to find out the food hygiene rating of our business or ask us for our food hygiene rating when you order".

(2) Rhaid i'r datganiad gael ei roi mewn lle amlwg ar y deunyddiau cyhoeddusrwydd fel bod defnyddwyr yn gallu ei weld yn hawdd.

(3) Rhaid i'r datganiad gydymffurfio â'r manylebau a ganlyn—

(a) maint teip sy'n 9 pwynt o leiaf fel y'i mesurir mewn ffont 'Times New Roman' nad yw wedi ei gulhau; a

(b) bwlch rhwng llinellau testun sy'n 3mm o leiaf.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Arddangos sgôr hylendid bwyd

**4.**—(1) Pan fo deunyddiau cyhoeddusrwydd yn cydymffurfio â rheoliad 3, caiff gweithredwr hefyd ddewis arddangos sgôr y sefydliad ar ei ddeunyddiau cyhoeddusrwydd.

(2) Rhaid i ddeunyddiau cyhoeddusrwydd sy'n arddangos y sgôr—

(a) arddangos sgôr ddilys;

(b) rhoi'r sgôr mewn lle amlwg ar y deunyddiau cyhoeddusrwydd fel bod defnyddwyr yn gallu ei gweld yn hawdd;

(c) arddangos y sgôr mewn ffordd sy'n ei gwneud yn glir i ba sefydliad y mae'n berthnasol os yw'r deunyddiau cyhoeddusrwydd yn hyrwyddo cludfwyd mwy nag un sefydliad; a

(d) cydymffurfio ag Atodlen 1.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Troseddau

**5.** Mae gweithredwr sefydliad yn cyflawni trosedd os yw, heb esgus rhesymol—

(a) yn methu â chydymffurfio â gofynion rheoliad 3; a

(b) yn methu â chydymffurfio â gofyniad rheoliad 4(2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Troseddau gan gyrff corfforaethol

**6.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo trosedd o dan reoliad 5 yn cael ei chyflawni gan gorff corfforaethol.

(2) Os profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd i'r corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath;

bydd y cyfarwyddwr hwnnw, y rheolwr hwnnw, yr ysgrifennydd hwnnw neu'r person hwnnw sy'n honni ei fod yn gweithredu fel y cyfryw (yn ogystal â'r corff corfforaethol) yn euog o'r drosedd a bydd yn agored i achos yn ei erbyn ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.

(3) Mae'r cyfeiriad at gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd y corff corfforaethol yn cynnwys cyfeiriad—

(a) at unrhyw swyddog cyffelyb y corff; neu

(b) pan fo'r corff yn gorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, at unrhyw swyddog neu aelod o'r corff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Gorfodi

**7.** Caiff awdurdod bwyd orfodi'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliadau 3 a 4(2) ar sefydliadau yn ei ardal.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Pŵer mynediad

**8.**—(1) Caiff swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd, ar ôl dangos ei awdurdod ysgrifenedig os caiff ei erchi i wneud hynny, fynd i mewn ar bob adeg resymol i sefydliad at ddibenion gorfodi'r gofynion yn rheoliadau 3 a 4(2).

(2) Ond yn achos mynediad i unrhyw ran o sefydliad a ddefnyddir fel annedd breifat yn unig, rhaid rhoi 24 awr o rybudd o'r bwriad i fynd i mewn iddo i'r gweithredwr.

(3) Caiff swyddog awdurdodedig ymafael mewn unrhyw ddogfen y mae ganddo sail resymol dros gredu y gall fod yn dystiolaeth o fethu â chydymffurfio â rheoliadau 3 a 4(2) a'i symud oddi yno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## Cosbau

**9.** Mae person sy'n euog o drosedd o dan reoliad 5 yn atebol ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## Cosbau penodedig

**10.**—(1) Pan fo gan swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 5, caiff y swyddog roi hysbysiad i'r person sy'n cynnig y cyfle iddo fodloni unrhyw atebolrwydd i euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig.

(2) Pan fo hysbysiad wedi ei roi i berson o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â throsedd—

(a) ni chaniateir i unrhyw achos gael ei gychwyn am y drosedd cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad; a

(b) ni chaniateir i'r person gael ei euogfarnu o'r drosedd os yw'n talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(3) Mae Atodlen 2 (hysbysiadau cosb benodedig) yn cael effaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## Derbyniadau cosb benodedig

**11.** Rhaid i awdurdod bwyd ddefnyddio'r symiau a delir iddo o dan hysbysiadau cosb benodedig a ddyroddir o dan reoliad 10 at ddiben ei swyddogaethau sy'n ymwneud â gorfodi hylendid bwyd yng Nghymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## Cyfrifoldeb awdurdodau bwyd i anfon gwybodaeth at weithredwyr

**12.** Rhaid i awdurdod bwyd anfon datganiad sy'n tynnu sylw gweithredwyr sefydliadau yn ei ardal at ofynion y Rheoliadau hyn yn unol ag adran 15(1) o'r Ddeddf (pwerau a chyfrifoldebau eraill awdurdodau bwyd).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Rhl. 12 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

*Vaughan Gething*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

18 Mawrth 2016

PROSPECTIVE

## ATODLEN 1

Rheoliad 4

### SGÔR HYLENDID BWYD

**1.** Rhaid arddangos sgôr ddilys ar un o'r ffurfiau a ddangosir isod.




**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** Y ffurf briodol ar gyfer sefydliad yw pa ffurf bynnag a ddangosir ym mharagraff 1 sy'n arddangos y sgôr gyfredol ar gyfer y sefydliad hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**3.** Rhaid i'r sgôr gydymffurfio â'r manylebau a ganlyn—

(a) cyfeirnodau lliw: Green: c43 m0 y100 k0 & Black;

(b) rhaid i ddimensiynau'r sgoriau fod yn 39mm (lled) x 27mm (uchder) o leiaf.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

ATODLEN 2 Rheoliad 10

HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

# RHAN 1

## Y WEITHDREFN AR GYFER HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

**1.** Caiff hysbysiad cosb benodedig gynnig y cyfle i berson dalu cosb o £200 (“y gosb”) o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â’r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cosb.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I16** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** Caiff hysbysiad cosb benodedig hefyd gynnig y cyfle i berson dalu cosb is o £150 (“y gosb ostyngol”) os telir o fewn cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau â’r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cosb.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I17** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**3.** Caniateir i’r gosb neu’r gosb ostyngol gael ei thalu drwy bostio llythyr sy’n cynnwys swm y gosb at y person a ddisgrifir ar yr hysbysiad yn y cyfeiriad a ddisgrifir felly. Bernir bod y taliad wedi ei wneud ar yr amser y byddai’r llythyr wedi cael ei ddosbarthu yn nhrefn arferol y post.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I18** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**4.** Nid yw paragraff 3 yn atal y gosb rhag cael ei thalu drwy unrhyw ddull arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I19** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**5.** Os yw awdurdod bwyd o’r farn na ddylai hysbysiad cosb benodedig fod wedi ei roi i berson gan swyddog awdurdodedig sy’n gweithredu ar ran yr awdurdod bwyd, rhaid i’r awdurdod bwyd roi hysbysiad i’r person hwnnw sy’n tynnu’r hysbysiad cosb benodedig yn ôl.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I20** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**6.** Os caiff hysbysiad cosb benodedig ei dynnu’n ôl—

(a) rhaid i awdurdod bwyd ad-dalu unrhyw swm sydd wedi ei dalu fel cosb yn unol â’r hysbysiad cosb benodedig, a

(b) ni chaniateir dwyn unrhyw achos na pharhau ag unrhyw achos yn erbyn y person a gafodd yr hysbysiad ar gyfer y drosedd o dan sylw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**7.** Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(a) sy'n cymryd arni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran prif swyddog cyllid awdurdod bwyd, a

(b) sy'n datgan bod taliad cosb wedi dod i law neu heb ddod i law erbyn dyddiad a bennwyd yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatganwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

# RHAN 2

## FFURF A CHYNNWYS HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

**8.** Rhaid i hysbysiad cosb benodedig roi'r manylion am yr amgylchiad yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd, sy'n angenrheidiol i esbonio pam mae trosedd wedi digwydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. 2 para. 8 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**9.** Rhaid i hysbysiad cosb benodedig ddatgan hefyd—

(a) enw a chyfeiriad yr awdurdod yr oedd y swyddog awdurdodedig yn gweithredu ar ei ran pan roddodd y swyddog yr hysbysiad;

(b) swm y gosb a'r cyfnod ar gyfer talu'r gosb;

(c) swm y gosb ostyngol a'r cyfnod y mae'r gostyngiad yn gymwys iddo;

(d) canlyniadau peidio â thalu'r gosb cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r gosb;

(e) y person y caniateir i'r gosb neu'r gosb ostyngol gael ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir ei thalu;

(f) drwy ba ddull y caniateir talu;

(g) y person y caniateir i unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r hysbysiad gael eu cyflwyno iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir eu cyflwyno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**10.** Rhaid i hysbysiad cosb benodedig hefyd—

(a) hysbysu'r person y mae wedi ei roi iddo am ei hawl i sefyll prawf am y drosedd honedig, a

(b) esbonio sut y caniateir i'r hawl honno gael ei harfer.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 28.11.2016, gweler **rhl. 1(1)**

PROSPECTIVE

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hyrwyddo sgoriau hylendid bwyd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn gymwys i sefydliadau sy'n cyflenwi cludfwyd (bwyd tecawê).

Mae rheoliad 3 yn nodi'r hyn y mae rhaid i weithredwyr bwyd ei wneud er mwyn hyrwyddo eu sgôr hylendid bwyd ac mae'n darparu ar gyfer yr hyn y mae rhaid ei arddangos ar eu deunyddiau cyhoeddusrwydd printiedig.

Mae rheoliad 4 yn darparu, pan fo gweithredwyr bwyd yn dewis arddangos sgôr hylendid bwyd ar eu deunyddiau cyhoeddusrwydd printiedig yn ogystal â'r datganiad y mae'n ofynnol iddynt ei arddangos, fod rhaid i'r sgôr honno gydymffurfio â gofynion rheoliad 4(2) ac Atodlen 1.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr sefydliad busnes bwyd fethu â chydymffurfio â gofynion rheoliadau 3 a 4(2).

Mae rheoliad 6 yn darparu, pan fo corff corfforaethol (megis cwmni, neu unrhyw gorff arall a gorfforir drwy statud) yn cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau, y bydd cyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd i'r corff hwnnw (neu unrhyw un sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath) hefyd yn euog o drosedd o dan amgylchiadau pan ddyfernir ei fod yn bersonol feius.

Mae rheoliad 7 yn darparu y caiff awdurdodau bwyd orfodi'r Rheoliadau hyn ac mae rheoliad 8 yn darparu pŵer mynediad ac ymafael mewn dogfennau i swyddogion awdurdodedig awdurdodau bwyd er mwyn iddynt orfodi'r Rheoliadau.

Mae rheoliad 9 yn darparu bod trosedd o dan y Rheoliadau yn drosedd y gellir ei rhoi ar brawf yn y Llys Ynadon a'i chosbi drwy ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Mae rheoliad 10 yn galluogi swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd ddyroddi hysbysiad cosb benodedig (HCB) i berson y mae ganddo reswm dros gredu ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau. Caiff swyddog awdurdodedig gynnig y cyfle i'r person hwnnw fodloni unrhyw atebolrwydd i euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig. Os na thelir y gosb benodedig, mae'r awdurdod bwyd yn cadw'r pŵer i erlyn. Mae'r rheoliad hwn hefyd yn cyflwyno Atodlen 2.

Mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig a lefel y cosbau penodedig sy'n daladwy mewn cysylltiad â throsedd o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 2 o Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â ffurf a chynnwys hysbysiadau cosb benodedig.

Mae rheoliad 11 yn darparu bod rhaid i awdurdodau bwyd ddefnyddio'r derbyniadau y maent yn eu cael drwy hysbysiadau cosb am orfodi hylendid bwyd yng Nghymru.

Mae rheoliad 12 yn rhagnodi'r wybodaeth y mae rhaid i awdurdod bwyd ei hanfon at weithredwr sefydliad busnes bwyd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd am ddrafft o'r Rheoliadau yn unol ag Erthygl 8 o Gyfarwyddeb 98/34/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes safonau a rheoliadau technegol (OJ Rhif L204, 21.7.1998, t. 37) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 98/48/EC (OJ Rhif L217, 05.08.1998, t. 18).

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Instrument yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Sch. 1 para. 1 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 1 para. 2 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 1 para. 3 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 1 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 2 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 3 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 4 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 5 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 6 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 7 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 8 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 9 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 10 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 1 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 2 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 3 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 4 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 5 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 6 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 7 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 8 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 9 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 10 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 11 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)
- reg. 12 coming into force by S.I. 2016/429 reg. 1(1)